**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1269
Ein cyf/Our ref EM/01704/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

01 Awst 2023

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 20 Mehefin ar ran y Pwyllgor Deisebau yn cynnwys pwyntiau pellach gan y deisebwyr ynghylch y Ddeiseb P-06-1269 - Peidiwch â gadael i'r cynllun redeg allan ar gyfer pobl sy'n marw yng Nghymru.

Rwyf wedi ymateb i'r pwyntiau isod a godwyd.

**Ceisio sicrwydd y bydd y Rhaglen Genedlaethol Gofal Lliniarol a Diwedd Oes yn cael yr adnoddau priodol i allu cyflawni'r rhaglen waith uchelgeisiol fel y nodir yn y Datganiad Ansawdd Gofal Lliniarol a Diwedd Oes.**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi £2 filiwn bob blwyddyn i gefnogi Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol Gofal Lliniarol a Diwedd Oes. Mae wedi ymrwymo i'r lefel hon o fuddsoddiad am weddill tymor y Senedd bresennol.

Mae hyn wedi galluogi seilwaith gweithlu'r rhaglen gofal lliniarol a diwedd oes i gael ei gryfhau, ac mae staff craidd ychwanegol, gan gynnwys rheolwyr prosiect, wedi'u penodi. Yn ogystal â hynny, mae sesiynau proffesiynol gan arweinwyr Nyrsio a Phroffesiynau Perthynol i Iechyd wedi'u sicrhau i weithio gyda'r rhaglen. Mae'r sesiynau gan yr arweinwyr clinigol presennol hefyd wedi cynyddu. Mae Bwrdd y Rhaglen hefyd yn gallu defnyddio'i adnoddau i gomisiynu arbenigedd ac arweinyddiaeth, a buddsoddi ynddynt, i gefnogi'r rhaglen waith gydag ymrwymiadau tymor byr a thymor hir. Mae ganddo hefyd y gallu i addasu'r gweithlu er mwyn diwallu amserlenni neu ymateb i waith sy'n datblygu fel bo'r angen.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ceisio sicrwydd ynghylch y gwaith o ddatblygu 'cynlluniau galluogi' i fwrw ymlaen â'r Datganiad Ansawdd Gofal Lliniarol a Diwedd Oes fel y nodwyd yng ngohebiaeth y Gweinidog i'r Pwyllgor ym mis Awst 2022.**

Mae tîm y Rhaglen wedi datblygu cynllun gweithredu cyffredinol i gyflawni'r datganiad ansawdd ac mae ffrydiau gwaith a themâu trawsbynciol wedi'u nodi. Maent yn gweithio gyda grwpiau clinigol a grwpiau cynghori arbenigol sydd newydd eu sefydlu er mwyn cytuno ar ffyrdd o gyflawni uchelgeisiau'r datganiad ansawdd. Mae cynlluniau ynghylch blaenoriaethau cynnar a chamau gweithredu tymor hwy yn dod i'r amlwg o'r grwpiau hyn.

**Cael diweddariad ar amserlenni ar gyfer cyflawni'r Datganiad Ansawdd Gofal Lliniarol a Diwedd Oes.**

Mae'r ffocws cynnar ar gyflawni'r datganiad ansawdd yn ymwneud â chyflymu ymdrechion i lenwi bylchau brys yn y gweithlu a'r seilwaith er mwyn gwella darpariaeth gofal diwedd oes y tu allan i oriau. Mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth ofal ehangach gan dimau nyrsys ardal, gwella mynediad at gyngor; er enghraifft, drwy 111, yn ogystal â gwella mynediad at feddyginiaethau.

Mae Bwrdd y Rhaglen yn canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i ymwneud, er enghraifft, â'r gwaith o ddatblygu'r 'Cynnig i Gymru' ynghylch sut y bydd angen i wasanaethau diwedd oes weithredu yn y dyfodol i ddiwallu anghenion y boblogaeth wrth iddynt newid. Mae strwythur uchelgeisiol wedi'i nodi gyda 4 grŵp cynghori i gefnogi'r gwaith, gan gynnig arbenigedd a phrofiadau bywyd perthnasol i gasglu safbwyntiau, barn a thystiolaeth.

Mae'r Bwrdd hefyd yn ymwneud â rhanddeiliaid allweddol, megis y Ganolfan Gwerth mewn Iechyd i arwain ar feysydd gwaith allweddol a'u cyflawni. Nod hyn yw gosod cyfeiriad y trywydd a sefydlu systemau a fydd yn parhau i ymateb i'r anghenion sy'n newid o ran gofal lliniarol a diwedd oes.

Yn ychwanegol, mae Bwrdd y Rhaglen hefyd yn canolbwyntio ar ba adnoddau fydd eu hangen i wella gofal lliniarol a diwedd oes a sicrhau bod y datganiad ansawdd yn cael ei gyflawni dros y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r Bwrdd hefyd yn canolbwyntio ar sut y bydd y set o ganlyniadau cleifion sydd newydd ei datblygu yn gymorth i fesur meysydd i'w gwella a buddsoddi ynddynt wrth inni symud tuag at system sy'n seiliedig ar werthoedd.

Gobeithiaf fod yr wybodaeth hon o ddefnydd i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services